
# Samson



TRUEWAY KIDS.com

# Cyflwyniad

Mae'r wers y wythnos hon yn parhau i edrych ar fywydau rhai o'r barnwyr yn Israel oedd yn rheoli rhwng concwest Gwlad yr Addewid a choroni brenin cyntaf Israel. Heddiw, byddwn yn astudio bywyd Samson. Gallwch ddarllen ei stori yn Barnwyr 13 -15.

Rhai o'r prif bwyntiau byddwn yn dysgu yw:

- Mae Duw yn rhoi gwahanol fedrau a doniau i ni.
- Dylen fod yn ofalus pwy rydym yn ymddiried ynddo oherwydd bydd rhai pobl yn ceisio ein twyllo.
- Pan rydym yn edifarhau, mae Duw yn ein maddau.

## Cynllun y wers

Atgoffwch y plentyn am rhai o'r gwahanol farnwyr rydym wedi clywed storiâu amdanynt. Siaradwch am sut roedd y barnwyr yn arweinwyr Israel 'run fath ac mae gennym arweinwyr yn ein gwledydd heddiw fel prif weinidogion, arlywyddion a.y.b.

Siaradwch am fel oedd Duw wedi rhoi dawn arbennig i Samson. Gofynnwch i'r plentyn os ydynt yn gwybod beth yw'r ddawn yma. Trafodwch sut oedd Duw wedi gwneud Samson yn gryf iawn, iawn. Siaradwch am ffyrdd eraill gall bobl fod yn ddawnus fel gyda lleisiau canu, deallusrwydd neu ddwylo cadarn. Meddyliwch am eich swydd a thrafodwch gyda'ch plentyn y ffordd mae Duw wedi rhoi i chi'r ddawn i'w wneud.

Gofynnwch i'r plentyn os ydynt yn gwybod ystyr ymddiriedaeth. Siaradwch am fel mae ymddiried yn golygu ein bod yn credu mewn gwirionedd rhywbeth. Siaradwch am bobl gallwn ymddiried mewn fel Mami a Dadi. Eglurwch mai'r Un Person gallwn ymddiried mewn bob amser yw'r Iesu.

Trafodwch sut gallwn fod yn ddoeth ac osgoi cael ein twyllo gan bobl. I egluro rhai o'r triciau mae pobl yn chwarae, llenwch fwg /bocs/ cynhwysydd arall gyda phapur creinsio. Ar ben y papur rhowch ychydig o ddarnau o losin. Dangoswch i'r plentyn mor llawn mae'r cynhwysydd yn edrych a sut bydd rhai pobl yn ceisio dweud wrthym ei fod wedi llenwi gyda losin. Wedyn tynnwch y losin i ffwrdd a dangoswch ei fod wedi ei lenwi gyda phapur creinsio. Siaradwch am ffyrdd eraill gallai bobl geisio ein twyllo. Pwyntiwch allan rhai o'r ffyrdd oedd Samson wedi cael ei dwyllo. Siaradwch am fel oedd Delilah wedi dweud celwydd wrth Samson, ac fel na ddylai fod wedi ymddiried ynddi gyda'i gyfrinach. Eglurwch fel mae'n rhaid i ni fod yn ofalus pwy rydym yn ymddiried ynddo.

Gofynnwch i'ch plentyn os ydynt yn gwybod beth yw ystyr edifeirwch. Eglurwch fod edifeirwch yn meddwl bod yn flin, ond hefyd i droi eich cefn ar ymddygiad drwg a mynd y ffordd arall. Mewn lle llydan ac agored gyda dim peryg baglu, rhowch gadair gydag amheuthun arno. Eglurwch eich bod yn mynd i chwarae'r gêm edifeirwch. Atgoffwch y plentyn bod edifeirwch yn feddwl bod yn flin am rywbeth ac i droi eich cefn ar bechod. Meddyliwch am er bod Samson yn ddall, roedd yn medru ymddiried yn Nuw am faddeuant pan roedd wedi edifarhau. Mygydwch eich plentyn. Trowch ef mewn cylch a dywedwch byddwch yn ei arwain at yr amheuthun.  Bob tro rydych yn galw, "edifarhewch!" mae'n golygu ei fod yn mynd yn y cyfeiriad anghywir ac mae angen mynd ar ffordd arall.

Ar ôl i'r plentyn ddarganfod yr amheuthun, meddyliwch am sut mae'r Beibl yn ein harwain i ffwrdd o bethau drwg. Atgoffwch y plentyn ein bod angen dweud wrth Dduw ein bod yn flin ac i stopio gwneud y peth drwg pan rydym yn edifarhau.

Gweddïwch gyda'ch plentyn i ofyn i'r Iesu eich helpu i ymddiried Ynddo ac i edifarhau am eich pechodau.

© 2023 truewaykids.com



Gweithiodd Samson yn galed yn y carchar. Tyfodd ei wallt eto.

Un diwrnod, aethant a Samson i'r deml. Roeddynt eisiau arddangos eu bod wedi dal Samson.

Gweddïodd Samson i Dduw. Dywedodd ei fod yn flin a gofynnodd i Dduw ei wneud yn gryf eto.

Rhoddodd Duw nerth i Samson, a gwthiodd drosodd pileri'r deml.

Cwympodd y deml ar ben y gelyn.





# Samson

Roedd gan Dduw gynllun arbennig i Samson, hyd yn oed cyn iddo gael ei eni.

Dywedodd Duw wrth fam Samson fyddai Samson yn achub y bobl.

Dywedodd Duw na ddylai Samson fwyta rhai bwydydd neu ddiodydd a dylai byth dorri ei wallt.

Bendithiodd Duw Samson.



Byddai Duw yn rhoi nerth rhyfeddol i Samson.

Un tro roedd llew wedi ymosod ar Samson. Rhoddodd Duw'r nerth iddo drechu'r llew.

Nes ymlaen, curodd 1,000 o ddynion mewn brwydr gydag asgwrn yn unig.

Tro arall, tynnodd lawr giatiau'r ddinas ar ben ei hun. Cludodd e nhw adref ar ei ysgwyddau. Roeddynt yn arbennig o drwm.





Ond gwnaeth Samson rywbeth drwg.
Cwympodd mewn cariad gyda dynes o'r enw Delilah. Roedd hi eisiau ei dwyllo.
Roedd hi eisiau ffeindio cyfrinach ei nerth a'i gaethiwo.
Dywedodd Samson wrth Delilah na ddylai dorri ei wallt.
Pan gwympodd Samson i gysgu, torrodd Delilah ei wallt a daeth Samson yn wan.
Cymerodd y gelyn Samson i'r carchar.

# Chwaraeon a Gweithgareddau

## Gwrthrychau trwm ac ysgafn

Ffeindiwch wrthrychau o wahanol bwysau a meintiau.

Gofynnwch i'ch plentyn ddyfalu os ydynt yn drwm neu yn ysgafn.

Ffeindiwch rhai gwrthrychau mawr sy'n ysgafn (balŵn neu glustogau) a gwrthrychau bach sy'n drwm. ( pwysyn bach metel, a bric) I ddangos gwahaniaeth rhwng maint a phwysau.





## Sioe Dalent

Siaradwch am fel rhoddodd Duw dalent o gryfder i Samson ac fel mae E'n rhoi talentau arbennig i bob un ohonom.

Cynhaliwch sioe dalent i'r teulu neu'r dosbarth. Ceisiwch gymysgu cymaint o dalentau a phosib.

Diolchwch i Dduw am y doniau mae E'n rhoi i ni.

## Ymarfer corff

Siaradwch â'ch plentyn am beth sy'n ein gwneud yn gryf ac yn tyfu cyhyrau.

Siaradwch am bwysigrwydd bwyta'n iachus a gwneud ymarfer corff.


Os edrychwch ar-lein fe ffeindiwch ddigonedd o syniadau hwyl ar gyfer plant dan 5 a phlant dan oed ysgol.

Peidiwch anghofio – mae'n iawn i ymuno a gwneud ychydig o ymarfer corff gyda'ch plentyn.



© 2023 truewaykids.com

# Tynnwch lun gwallt doniol ar y bobl



© 2023 truewaykids.com

Torrwch ar hyd y llinell gyda'ch siswrn i roi toriad gwallt i'r bachgen





© 2023 truewaykids.com

# Ysgafn neu Drwm




Tynnwch gylch glas rownd y gwrthrychau trwm


Tynnwch  gylch coch o gwmpas y gwrthrychau ysgafn












© 2023 truewaykids.com

# Gallwch chi dynnu llun o'ch hun?



Mae gen i

- ☐ Wallt Tywyll
- ☐ Wallt Hir
- ☐ Wallt Cyrliog
- ☐ Wallt Golau
- ☐ Wallt Byr
- ☐ Wallt Syth

© 2023 truewaykids.com



Gludwch neu tynnwch lun o wallt Samson

# Samson Pen Gwair

## Pethau rydych angen:

- Hen deits/hosanau
- Pridd neu gompost
- Hadau gwair
- Band rwber neu gortyn
- Llygaid gwgli, ffelt i wneud y wyneb
- Pot i'ch pen gwair eistedd ynddo!
- Templed i'r breichiau



## Beth i'w wneud:




Rhowch ysgeintiad hael o hadau gwair yn waelod y teits.



Adiwch y compost nes bod gennych bêl maint da bydd yn gwneud y pen.



Dirdrowch siâp trwyn a'i ddal yn ei le gyda band rwber neu gortyn.



Adiwch y llygaid.

Torrwch ffelt i wneud addurniadau i'r wyneb. Ceg, aeliau a.y.b.




Addurnwch y pot.


Gludwch freichiau ar ochr y pot.




Rhowch y pen ar y pot. Dyfriwch y pot a gadewch i'r teits eistedd yn y dŵr i'w socian i fyny. Pan mae'r gwair yn dechrau tyfu, siapiwch gyda siswrn. (Tua 10 diwrnod.)

© 2023 truewaykids.com

Am y canlyniadau gorau
printiwch ar gerdyn gwyn.




© 2023 truewaykids.com


# Crefft Pileri Samson



**Byddwch angen:**
- Cyfarpar lliwio
- Siswrn
- Glud


**Beth i'w wneud:**
1. Lliwiwch y tudalennau templed
2. Plygwch dudalen y deml syrthiedig fel bod yr ochrau'n cwrdd yn y canol.
3. Torrwch allan y llun o Samson wrth y piler isod a gludwch ar y tu allan gwag o'r tudalen plyg.
4. Gwyliwch y fideo am gyfarwyddiadau llawn.

https://youtu.be/M1o85W_Xxeg



© 2023 truewaykids.com


© 2023 truewaykids.com





© 2023 truewaykids.com

© 2023 truewaykids.com






© 2023 truewaykids.com



© 2023 truewaykids.com



© 2023 truewaykids.com

# Amser Addoli

Argymhellir caneuon addoli, heb eu cynhyrchu gan Trueway Kids. Fideos 'You Tube' i'w defnyddio at ddefnydd personol yn unig.



Joy of the Lord is your strength

https://youtu.be/Fu6wL9a6rn4

What A Mighty God We Serve

https://youtu.be/lijsESdEnZg

Strong in the Lord

https://youtu.be/wTxRD8orexk



# Amser Gweddi

Diolchwch i Dduw am y doniau mae E'n rhoi i ni.

Diolchwch i Dduw Ei fod yn ein maddau pan rydym yn dweud ein bod yn flin.

Gofynnwch i Dduw eich helpu i fod yn ofalus pwy rydym yn ymddiried ynddo.

# Wythnos Nesaf:

Ruth

Os nad ydych wedi gwneud yn barod, cytunwch i dderbyn gwersi yn y dyfodol trwy e-bost.
truewaykids.com/subscribe/

© 2023 truewaykids.com